



07.04.22

Annwyl Rieni / Gofalwyr

### **Diolch o galon**

Wrth inni agosáu at ddiwedd tymor y Gwanwyn, hoffwn ddiolch i chi fel Rhieni / Gofalwyr am eich cefnogaeth barhaus ar draws cymuned yr ysgol.

### **Nodyn i Atgoffa: Diwrnodau HMS**

Mae gennym 3 diwrnod HMS ar ôl sef:  
Gwener 29 Ebrill  
Llun 20 Mehefin  
\*\* Gwyl y Banc yw Llun 2 Mai

### **Cylchlythyr**

Rydyn wedi bod yn brysur iawn tymor yma ar draws yr ysgol gyfan. Diolch i chi gyd am gefnogi ein digwyddiadau ac mae'n bleser rannu ein holl gweithgareddau gyda chi yn y Cylchlythyr a fydd yn cael eich rhannu gyda chi trwy negeseuon ac ar y wefan.

### **Dyddiadau ar gyfer Tymor yr Haf**

Mae plaser gyda ni i gyhoeddi hoffwn wahodd chi fel rhieni / gofalwyr nôl ar y safle yn ystod tymor yr haf ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau amrywiol. Gyda rhwystrau COVID-19 yn lleihau teimlwn nawr yw'r amser gorau i wahodd chi nôl i ysgol, er falle byddwn ni dal i gadw at rai rwystrau gyda'r firws dal yn ein cymunedau, er enghraifft, gorchuddion mwgwd tu fewn. Cewch ragor o fanylion a gwybodaeth ynglŷn a'r digwyddiadau'n agosach i'r dyddiadau.

Hefyd, mae nifer o weithgareddau ac ymweliadau wedi'u cynllunio ar gyfer yr holl ddisgyblion ar draws yr ysgol yn ystod tymor yr haf. Cadwch lygaid ar bob gohebiaeth o'r ysgol a'r athrawon dosbarth trwy neges destun, Ap Rhieni a'r wefan, yn ogystal a gwybodaeth rheolaidd o Mrs Rhiannon Richards.

### **DIGWYDDIAD 'DATHLU LLWYDDIANT'**

Gwelwch lythyr ar wahân gyda gwybodaeth a dyddiadau i wahodd rhieni a gofalwyr i'r ysgol er mwyn dathlu a rhannu gwaith y plant dros y flwyddyn diwethaf.

### **MABOLGAMPAU**

Dyddiad	Amser	Blynyddoedd
Llun 13 Mehefin (dibynnu ar y tywydd)	1 yp	Blwyddyn 3 a 4
Mawrth 14 Mehefin (dibynnu ar y tywydd)	1 yp	Meithrin a Derbyn
Mercher 15 Mehefin (dibynnu ar y tywydd)	1 yp	Blwyddyn 1 a 2
Iau 16 Mehefin (dibynnu ar y tywydd)	1 yp	Blwyddyn 5 a 6

### **DATHLIAD DIWEDD BLWYDDYN 6**

Cynhelir ddathliad diwedd flwyddyn ar gyfer plant, rhieni a gofalwyr ar ddydd Gwener 15 Gorffennaf am 2yp.

### **Ffarwel**

Dymuniadau gorau i Mrs Rebecca Batacan, sy'n ein gadael ni ar ddiwedd y tymor ar ôl bron 6 mlynedd yma ym Mro Ogwr. Mae Mrs Batacan wedi bod yn aelod pwysig o'r Tîm Gweinyddol – dymunwn pob lwc iddi yn ei swydd newydd.

Hoffwn dymuno gwyliau hapus a diogel i chi gyd, croesawn bawb nôl i ysgol ar ddydd **Llun 25 Ebrill**.

Pasg Hapus a chofion cynnes

Mrs S Jayne

Pennaeth